

Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 212

Pris 80c

Mis Mai 2019



Rhiw'r Perrai – tud 4 a 5

Dydd Ewyllys Da



Cofiwn taw ar y 18fed o Fai pob blwyddyn y byddwn yn dathlu Dydd Ewyllys Da eleni eto.

Daeth yn dipyn o draddodiad yn ein hardal erbyn hyn i gyfeillion, tylwyth, cymdigion ac eraill gyfarch ein gilydd. Gwnawn hyn yn yr ysbryd y danfonodd Y Parchedig Gwilym Davies, Bedlinog y neges gyn- taf ar y radio yn ystod dau ddegau'r ganrif ddiwethaf. Mae plant ein hysgolion Cymraeg wedi bod yn flaengar wrth gynnal y traddodiad hwn. Beth am fynd ati felly - gyrrwch gerdyn, e-bost neu neges testun i at- goffa'n gilydd o bwysigrwydd y Neges Heddwch?

PWYLLGOR A SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920 885151

Cynorthwy-ydd: Jan Penney

Dosbarthu a Golygydd Lluniau: Mary Jones

Y Pwyllgor: Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams, Jenni Jones-Annetts

Ieuenctid: Morgan Roberts, Swyddog Prosiect Llais,

Hysbysebu: Bethan Jones, Menter Iaith

Gweplyfr/ Facebook: Papur Bro Cwmni

Gwefan: menter.aerffili.cymru/



e-bost: [Golygydd@papurcwmni.cymru/](mailto:Golygydd@papurcwmni.cymru) benamary2000@yahoo.co.uk

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.

Argraffu Tower Print, Uned 12a, Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas, Caerffili, CF83 8DW



*Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru*

Capeli Sir Caerffili Oedfaon mis Mai

Bedyddwyr Tonyfelin

5ed 10.30 a 6.00 : Parch Milton Jenkins

12fed I'w drefnu

19eg Yn Bethel trwy'r dydd

26ain I'w drefnu

Annibynwyr, Bethel

5ed 10.30. Sul Cymorth Cristnogol

12fed 10.30 Dr. Eirian Dafydd

19eg. 10.30 y.b a 6 y.h. Parchg. Robert Owen Griffiths

Cymun yn y bore.

26ain. 10.30 a 6 Gyda Tonyfelin.

Penuel, Rhymni

Mr. G Leyshon

Rev. R Grey

Dr. G. Jones

Parch Evan Morgan

Capel y Groeswen

12fed Rev. Teify Ebenezer

3:00 o'r gloch

Llwyddiant Eisteddfodol

Daeth cywydd sy'n sôn am Gwm Sirhywi a'r bardd Islwyn (William Thomas, 1832-1878) yn ail yng nghystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod Menter Caerdydd yn ddiweddar. Eisteddfod yw hon i ddosbarthiadau cynganeddu'r Fenter oedd dan ofal Emyr Davies a'r Prifardd Gruffudd Owen dros fisoedd y gaeaf. Enillwyd y gadair am y trydydd tro yn olynol gan Rhys Powys o Gaerdydd ond yn ail agos iddo oedd John Lloyd o Gaerffili. Mae John wedi ymddiddori yn y cynganeddion ers ymddeol o'i swydd yn Adran Addysg Llywodraeth Cymru ac fel athro yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni cyn hynny. Cynigiwyd y Gadair am gywydd ar y testun "Storm", sef yr un teitl â cherdd enwog Islwyn.



Mae llwybr cerdded ar hyd hen dramffordd Penllwyn, Parc Gwledig Cwm Sirhywi, yn mynd heibio i Gapel y Babell a beddfaen Islwyn a welir uchod.

Storm

Ar lwybr cof y lofa
cerddwn dan wên heulwen ha'
hyd y cwm a chlywed côr
y wig a'u croeso'n agor
drws ar fywyd yr oesau,
i hen gof sy'n prysur gau.

Bwtsias glas ar gefnlen glo
a hen lili'n ailhawlio
aelwyd a chuddio olwyn
fu'n cario glo hyd y glyn,
lawr y ffordd o darddle'r ffydd
a'i maen i fardd y mynydd.

Â'i awen hen awn yn ôl
i'w hiraeth a'i gur hwyrol,
i hanes heriau'i einioes
yno i rawd gwŷr ei oes,
yn ddrws i fedd yr oesau
a her breuder ein byd brau.

Cofiwch Dryweryn

Diolch a llongyfarchiadau i'r sawl a baentiodd gopi o'r gofeb enwog "Cofiwch Dryweryn" ar y porth wrth y caeau chwarae ger Ysgol y Castell, Caerffili.

Lluniwyd y gofeb wreiddiol ar dalcen hen fwthyn ar y briffordd i Aberystwyth ger pentref Llanrhystud. Bu'n rhaid gwneud gwaith cynnal a chadw yno o bryd i'w gilydd ar hyd y blynyddoedd ond yn fwy diweddar fandaleiddiwyd y gofadaill yn fwriadol. Yn wir, aeth rhai fandaliaid mor bell â'i ddifwyno drwy baentio'r enw "Elvis" yno. Aeth rhai o garedigion yr iaith ati'n syth i adfer y sefyllfa, a hynny mwy nag unwaith.

Ond tybed na wnaeth y fandaliaid gymwynas â'r mudiad cenedlaethol wrth i wladgarwyr hyd a lled Cymru fynd ati i baentio ffacsimili o'r gofeb. A da nawr yw gallu gweld y gellir cynnwys enw Caerffili ymhlith y manau hyn.

Mae'n briodol mai ar wal porth Meysydd Glyndŵr y paentiwyd y slogan oherwydd codwyd y waliau, y to a'r giât yma i nodi Eisteddfod Genedlaethol Caerffili yn 1950. Grŵp o brentisiaid a'u cododd ac er i gyflwr y porth ddirywio o flwyddyn i flwyddyn fe'i ailgodwyd yn 2010 i nodi trigain mlynedd ers yr Eisteddfod eiconig honno.

Dywedir mai'r awdur a'r gohebydd, y diweddar Meic Stephens a baentiodd y mur yn ymyl yr A487 i gofio'r trychineb o foddi Cwm Celyn yn ystod yr 1960au. Bu cryn ddadlau ai "Cofiwch Tryweryn" fel yr ymddangosodd yn wreiddiol yntau "Cofiwch Dryweryn" sy'n gywir. Mae barn ysgolheigaidd yn mynnu bod y treigladau i "Dryweryn" yn ei wneud yn amhenodol. Beth y'ch chi'n meddwl? Ond yn sicr yr hyn sy'n bwysig yw ein bod yn cofnodi'r annhegwch creulon ac yn dal i gofio amdano.




Castell Rhiw'r Perrai

gan Mary Jones

I'r rhan fwyaf ohonom Ruperra yw enw'r dafarn ym Maesaleg. Mae pawb yn gyfarwydd â'r traffic ar y ffordd i'r M4 heibio i gornel waelod y tyle yn Rhiwderyn. Ond wyddoch chi mai castell Rhiw'r Perrai yw "ail gastell" Caerffili? Dysgodd nifer ohonom hyn, a llawer mwy, mewn sesiwn a drefnwyd gan Ffrindiau'r Castell y mis diwethaf. Cynhaliwyd cyfarfod yng ngorsaf dân Caerffili i gyflwyno pwt o hanes gan ddangos hen ffilm ddiddorol iawn.


Mae criw ymroddgar wrthi'n codi arian i adfer rhannau o'r castell a fu am flynyddoedd lawer yn fan hardd iawn. Erbyn hyn, mae'r adeiladau a'r gerddi wedi dirywio'n ddirfawr. Mae'r criw yn awyddus i bobol ymuno â nhw drwy wirfoddoli yn yr amryw weithgareddau gan gynnwys codi arian.

Roedd yr adeilad yn newydd yn 1626 ac yn eiddo i Syr Thomas Morgan, aelod o'r teulu mwyaf pwerus a chyfoethog yng Ngwent. Roedd hefyd gan y teulu dir yn Sir Frycheiniog, Llundain a Norfolk. Bu tân mawr yn 1785 a losgodd y tu mewn i'r tŷ yn gyfan gwbl. Ar ôl pedair blynedd roedd yr adeilad ar ei newydd wedd ac yn y ffurf y mae heddiw. Erbyn diwedd yr ail ganrif ar bymtheg roedd ystadau Tredegar a Rhiw'r Perrai yn eiddo i'r un adran o'r teulu Morgan. Parc Tredegar oedd y prif dŷ, tra roedd yr etifedd yn byw yn Rhiw'r Perrai. Erbyn 1841 roedd dau ddeg pedwar o weision yn y castell. Ddiwedd y ganrif stori wahanol iawn a ddatblygodd. Roedd y Cynol Freddie Morgan yn anfonlon gwario arian ar y castell er ei fod yn mwynhau hela a ffermio a bywyd cymdeithasol boneddigion. Llosgodd y stablau yn yr 1890au ond ni chafodd unrhyw beth ei wneud tan wedi marwolaeth Freddie.



Dyma'r castell yn ei holl ogoniant mewn llun a dynnwyd yn yr 1920au. Mae hwn yn dangos y parc mawr, y coed newydd a'r llwynni oedd o gwmpas yr adeiladau.

Aeth ei fab ati i wella'r castell. Ar ôl 1909 gwnaeth Commander Courtenay Charles Evan Morgan waith helaeth i wella'r ystâd a'r castell, gan gynnwys adeiladu stablau crand a gweithdai i'r staff. Roedd mynediad newydd ar yr ochr ddwyreiniol a chronfa ddŵr yn y parc.




Gerddi enwog y castell yn yr 1930au yn dangos campwaith Angus Mackinnon y pen garddwr. Gwelir hefyd y tai gwydr ym mhen uchaf llun.

Yn 1926 symudodd Courtenay Morgan i Dŷ Tredegar ar ôl etifeddu'r teitl Arglwydd Tredegar, 40,000 erw a £2,369,685. Serch hynny, aeth y gwelliannau yn eu blaen yn 1920au. Erbyn hyn roedd yn gartref penwythnos, rhywbeth tebyg i Gastell Coch y teulu Bute. Ymddangosai'r teulu Morgan gyda'u ffrindiau ar gyfer yr hela ac i fwynhau'r gerddi, y coed a'r tawelwch cyn rhuthro yn eu holau i Dŷ Tredegar.

Serch hynny, roedd staff llawn yn gofalu am y gerddi a'r tai gwydr. Angus Mackinnon oedd arweinydd y garddwyr am 40 o flynyddoedd. Ychydig iawn oedd yn digwydd yn y tŷ ei hunan heblaw'r glanhau ond roedd y gerddi yn enwog. Erbyn y 30au doedd neb yn defnyddio'r tŷ o gwbl.

Ychydig cyn marwolaeth Viscount Courtenay, yn 1935, roedd y castell, y gerddi a'r tir ar werth. Ni werthwyd dim ond cynnwys y tŷ. Evan, mab Courtenay, oedd yr etifedd. Roedd e'n fardd ac yn awdur oedd yn hoffi byw yn Llundain neu Paris. Gadawodd Evan y castell a'r gerddi, oedd mor brydfferth, i ddirywio. Doedd anlwc y castell ddim wedi dod i ben. Yn 1941 defnyddiai milwyr yr adeilad a dechreuodd tân damweiniol yn y to. Llosgodd y tu mewn i'r muriau yn ulw er gwaethaf ymdrechion dynion y frigâd dân o Fargod a Chaerffili. Roedd y fflamau i'w gweld am filltiroedd.



Dyma stablau 1901 a adeiladwyd gan Courteney Morgan ac ar y dde y “Bothy” sef lle’r oedd y gweision a weithiai y tu allan yn byw.

Wedi marwolaeth Evan, yn 1949 gwerthwyd ystâd Tredegar i gyd, gan gynnwys adfeilion y castell. Yn 1977, ar ôl newid dwylo sawl gwaith, roedd Mr Des England yn ffermio’r ystâd fel “Ruperra Castle Farm”. Doedd dim mynediad i’r cyhoedd, heblaw’r llwybr wrth ochr y wal ar gyrion y tir.

Roedd y castell a’r tir yn ganolbwynt i ardal am dair canrif. Roedd y gweision yn byw yn y tŷ ei hunan neu yn un o nifer fawr o fythynnod oedd ar yr ystâd. Roedden nhw fel math o deulu anferth. Wedi marwolaeth y Morgan olaf (John) yn 1962 roedd y tenantiaid yn dioddef. Roedd swyddfa’r ystâd a oedd wedi gofalu amdanynt wedi mynd. Mae hanes rhai o’r tenantiaid i’w gael yn ‘Serving Under Ruperra 1900-1939’ gan Pat Moseley. Mae’r llyfr yn werth ei ddarllen ac yn creu naws y lle unigryw hwn yn llwyddiannus iawn. Hefyd mae ‘Lord Ruperra’s Castle’ gan Tony Friend yn gyfrol sy’n rhoi hanes y tŷ a nifer o luniau o’r castell a’r gerddi yn eu hanterth.

A ble mae’r trysor yma, chi’n bownd o ofyn?
Wel, mae e yn y coed rhwng Rhydri, Draethen
a Chefn Mabli ac yn dal i fod yr un mor
anghysbell ag y bu erioed.

Mae’r safle wedi newid perchnogaeth nifer o
weithiau eto ers 1977 gyda sawl cais ar gyfer
adeiladu tai wedi’u gwrthod - diolch byth. Ond
mae’r dyfodol yn dal i fod yn y fantol.

Os am gynnig eich cefnogaeth drwy wirfoddoli
ar gyfer yr ymdrech i adfer rhannau o’r castell,
cysylltwch â Pat Jones-Jenkins ar
patjonesjenkins@googlemail.com

Gellir cloriannu ffawd yr adeilad hwn yn yr
englyn a ysgrifennodd Ieuan Brydydd Hir yn
1780. Cerdd yw hon a ysgrifennwyd am
gyflwr truenus Llys Ifor Hael a oedd ym
Maesaleg heb fod nepell o Riw’r Perrai, lle
roedd cartref noddwr enwog Dafydd ap
Gwilym wedi dirywio’n enbyd.



Llys Ifor Hael, gwael yw’r gwedd—yn garnau
Mewn gwerni mae’n gorwedd
Drain ac ysgall a’i medd
Mieri lle bu mawredd.

Clwb Darllen Cwmni

Llawr Cyntaf

Llyfrgell Newydd Caerffili

2:00 o’r gloch

Mai 13eg: Ar Drywydd Llofrudd
gan Alun Davies

Mehefin 3ydd: Perthyn gan Sian
Northey

Gorffennaf 1af: Agor Cloriau
gan John Phillips

Festri Tonyfelin, Caerffili

Llenyddda

Yr Athro E. Wyn James

Nos Fawrth, 7^{fed} o Fai
7:00 tan 9:00

“Llyfr Glas Nebo”

Manon Steffan Ros

Croeso Cynnes i Bawb

Cymreictod a Hanes - 3

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, wrth geisio diffinio Cymreictod, rwy wedi bod yn gofyn i wahanol bobl am eu diffiniadau nhw. Ie, “yr iaith” yw’r ateb cyntaf gan bawb, ond pan holais un hen ffrind yn fanylach, cefais ateb hyfryd a goleuedig ganddi.



Mae Margaret Thomas yn 94 erbyn hyn. Yn wreiddiol o Bentre’ Rhondda, bu’n bennaeth ysgol fabanod cyn ymddeol. Roedd ei theulu, fel sawl teulu arall yn y cymoedd hyn, wedi peidio â siarad Cymraeg ar yr aelwyd, ond penderfynodd Margaret ddysgu’r iaith wedi ymddeol - fel sawl un o ddarllenwyr Cwmni, mi wn. Mae hi mewn cartref nyrsio erbyn hyn, ond yn dal ei gafael ar y Gymraeg, ac mae ganddi stôr o

ddoethineb i’w rannu sy’n seiliedig ar brofiadau ei bywyd hir a’i meddwl treiddgar a dadansoddol.

Felly, wedi iddi ddweud wrthyf taw’r iaith Gymraeg yw hanfod Cymreictod, dyma’r ateb a gefais ganddi i’m cwestiwn nesaf, “Ond beth am y rhai sydd ddim yn ei siarad?”. “Rhaid eu bod yn ei charu”, meddai, “Yn ei pharchu ac yn deall ei phwysigrwydd”. Mae Margaret yn gweld y Gymraeg fel llinyn aur sy’n cysylltu’r Cymry gyda’i gilydd ar draws y canrifoedd ac ar draws y byd.

Ond credaf, fel hanesydd, fod elfen arall yn hanfodol i Gymreictod hefyd, ac un sydd efallai mor hen â’r iaith ei hun, sef yr ymdeimlad o berthyn. Yn ôl Cyfraith Hywel Dda, cysylltiadau teuluol yw sylfaen cymdeithas, ac yn ôl hanesydd arall llawer mwy disglair na fi, sef y diweddar Dr John Davies, Cyfraith Hywel yw “... un o greadigaethau mwyaf ysblennydd diwylliant y Cymry.” (*Hanes Cymru*, 1990, t.86). Wrth fynd ymlaen i drafod cynnwys ac arwyddocâd y Gyfraith, dywed “Cyfraith y bobl, cyfraith genhedlig [ydoedd]... ac ar adfer cytgordd mewn cymdeithas trwy sicrhau cyfamod rhwng carennydd yr oedd ei phwyslais, yn hytrach nag ar fynnu cosb er cadw trefn.” (*ibid.*)

Nid corff o gyfreithiau a ddyfeisiwyd gan y brenin a’i gynghorwyr yn y 10fed ganrif oedd Cyfraith Hywel, ond ymgais i roi trefn ar arferion a chyfreithiau oedd eisoes yn hen. Mae’n bur debyg eu bod yn dyddio ’nôl i gyfnod y Celtiaid, ac felly mor hen â’r iaith ei hun. Y cyfreithiau hyn oedd sylfaen cymdeithas Cymru am ganrifoedd lawer ar ôl dyddiau Hywel, er i’w dylanwad edwino dan y drefn ffiwdal a ddaeth i Gymru gyda’r Normaniaid. Cafodd ei disodli’n derfynol gan y Deddfau Uno ym 1536 ac 1542.

Onid yw dylanwad Cyfraith Hywel arnom o hyd? Un o’n nodweddion ni fel Cymry, o’m profiad i, yw’r ysfa sydd ynom i ganfod cysylltiad pan gwrddwn â rhywun dieithr am y tro cyntaf. Y cwestiwn cyntaf fel rheol yw “O le y’ch chi’n dod?”, a’r un nesaf - “Ydych chi’n ’nabod hon-a-hon (neu hwn-a-hwn)?” Byddwn yn gweithio’n galed wedyn i geisio canfod rhyw gysylltiad – unrhyw gysylltiad!



Mae pwysigrwydd yr iaith Gymraeg i ni yn ddigon amlwg: hoffwn feddwl bod yr awydd i berthyn i’n gilydd hefyd yn hanfodol i Gymreictod, ac i’w olrhain yn ôl yr un mor bell.

Dr Elin Jones

Ydych chi'n gallu dod o hyd i'r DEG gwahaniaeth rhwng y ddau lun?



Dyma DDEG o bethau i'w gwneud i gadw'n heini ar ôl bwyta gormod o wyau Pasg. Ble maen nhw?



CHWARAE	RHEDEG
NOFIO	CERDDED
DRINGO	NEIDIO
SGIPIO	BEICIO
PYSGOTA	SGLEFROLIO

Mae 9 o'r gweithgareddau wedi'u cymysgu yn y peli

1. _____ 2. _____
3. _____ 4. _____
5. _____ 6. _____
7. _____ 8. _____
9. _____




Mae'r atebion ar dudalen 15

Clwb Darllen *Cwmni*

Cysgodion Cam gan Ioan Kidd

Gwasg Gomer



'Dihunwch lan, dihunwch lan, pob un wrth ei fodd' ... medd un o hen ganeuon y Bara Menyn, erstalwm. A dyma ni, yn ôl yn oes y Bara Menyn hefo'r nofel yma, ble y down i ddarllen mai dioddef byw yn unig a wna rhai o'r cymeriadau yr ysgrifennir

amdanynt, a hynny'n arwain at boen a gofid i eraill o'r herwydd.

Gwyn Phillips yw enw'r prif gymeriad. Enw ei ffrind pennaf yw Rhodri. Un diwrnod, ar ddechrau'r nofel, daw'r meddyg a'r oedolyn Gwyn ar draws hen gymeriad o'i blentyndod tra'n brysur wrth ei waith mewn ysbyty.

Y cyfarfod damweiniol yma sy'n ei hyrddio'n bendramwnwgl, a ninnau hefo fo, nôl i Gwmafan ei blentyndod. I ganol y twyll anweledig sydd ar waith ynghanol hynt a hanes dyddiol y ddau lanc ysgol, sy'n brysur ddechrau ar eu taith eu hunain o dyfu i fod yn ddynion.

Roedd pawb o'r grŵp darllen yn falch ein bod wedi dewis 'Cysgodion Cam' i bori trwyddo, er i rai ei fwynhau yn fwy na'r gweddill.

Braf yn enwedig oedd cael dilyn stori mewn tafodiaith wahanol am newid.

Roedd pob un wrth ei fodd hefo hynny!

Perthyn y teulu Phillips i ddosbarth gweithiol Cwmafan. Gweithwyr dur yw tad a brawd Gwyn. Gwraig tŷ yw ei fam, ond mae'n gweithio hefyd, mewn ffatri leol sy'n cynhyrchu sigars.

Byw yn y Mans lleol y mae Rhodri, gyda'i dad y gweinidog a'i fam ddosbarth canol. Bob hyn a hyn edrychai ei fam yn ôl i'r adeg pan oedd cerddoriaeth a byw ar y cyfandir yn fêl iddi.

Tydi bywyd ddim yn joli o bell ffordd i'r teulu tŷ cyngor, ond, ymlaen yr ânt drwy bob anhawster. Dim ond cofio peidio bod yn ormod o destun siarad i'r tafodau lleol, dyna'i gyd.

Lawer tro mae Gwyn yn falch o gael dianc i fyny i'r Mans at ei gyfaill Rhodri, a'i rieni, sydd ar yr wyneb yn garedig a chyfeillgar, ac yn hynod o hapus. Eto'i gyd, tydi Rhodri ddim yn iawn bob amser. Oes rhywbeth yn bod, yntai poen tyfu'n unig sydd ar fai?

Ymlaen â'r stori – Gwyn, sy'n datblygu i fod yn redwr addawol, a Rhodri, sy'n tyfu'n fwy anhapus, yn enwedig hefo'i athro ymarfer corff. Ac yna wrth gwrs beth am ei fam?

Mae yna barti arwisgiad. Mae'na fabi ar y ffordd, a streic ar gychwyn. Hyn i gyd, heb anghofio wrth gwrs, am y twyllo mawr du, sy'n araf amlygu'i hun, er sioc a siom, yn enwedig i Gwyn, sy'n mwy na gwrido o'i herwydd.

John Roberts

Brynhawn Llun Mai 13eg am 2:00 o'r gloch fydd y Clwb yn cyfarfod nesaf ac yn ystyried nofel dditectif 'Ar Drywydd Llofrudd' gan awdur newydd, Alun Davies.

Dewch i ymuno â ni, rydym yn griw digon cyfeillgar!

De Korea

Cyn dychwelyd adref roedden ni wedi trefnu ymweld â Vietnam ond rhaid oedd newid awyren yn Seoul, De Korea. Gan na fyddai'n debygol y bydden ni'n ail-ymweld â Seoul, dyma benderfynu aros a threulio deuddydd yn y ddinas. Am ein bod wedi trefnu aros ar gyrion maes awyr Incheon cawsom weld ychydig o'r wlad oddi amgylch ar y ffordd i mewn. Rwan yr unig broblem oedd ein bod wedi gadael Auckland yn nhymor yr haf ond gan fod De Korea yn hemisffer y gogledd roedden ni'n cyrraedd yn nhymor y gaeaf. Er bod siaced gynnes yr un wedi eu pacio, wrth gamu allan o faes awyr Incheon am wyth o'r gloch y nos roedd hi'n teimlo braidd yn oer. Braidd yn oer.... Roedd y tymheredd yn -10°. Wrth ddal y bws y bore canlynol roedd yr awyr yn hollol las a'r haul yn tywynnu OND roedd hi'n -15°. Diolch byth bod y bws yn gynnes. Y diwrnod cyntaf, wedi i mi wisgo dau bâr o drowsus, dau grys T a dwy siwmpwr, dyma ymweld ag ardal Insadong - ardal draddodiadol gyda siopau cofroddion, celf a chrefftiau lleol ac ambell i balas a theml. Doedd cerdded yn llygad yr haul ddim yn rhy ddrwg ond y funud roeddem mewn cysgod neu mewn gwynt, yna roedd yr oerfel yn gafael.

Llwyddon ni i dreulio rhyw bedair awr yn y ddinas y diwrnod hwnnw a phrofi cinio yn cynnwys bwyd traddodiadol. Roedd pawb yn y bwyty yn hynod o glên ond roedd cyfathrebu yn sialens. Rhaid oedd eistedd mewn cegin a dwy ddynes oedrannus yn coginio mewn cornel. Roeddem yn adnabod y nwdls a'r reis ond beth oedd yn yr wyth ddysgl fach arall, pwy a wŷr? Roedd rhai yn flasus, eraill yn edrych yn amheus ond dyna beth sydd yn gwneud gwyliau'n ddiddorol !

Yr ail ddiwrnod a hithau'n rhewi'n gorn eto, dyma benderfynu mynd ar y bws coch am daith o gwmpas y ddinas. O leia cawsom eistedd mewn gwres am ddwy awr. Mae'r ddinas yn fodern ond mae ymdeimlad o'r hen yno hefyd a phalasau hardd ar ffurf pagodas yn frith. Aeth y bws â ni i fyny tuag at dŵr Namsan ar ben mynydd lle cawsom olygfa fendigedig, er braidd yn oer, o'r ddinas yn lledaenu i bob cyfeiriad oddi tanom a sylweddoli pa mor fawr ydy hi. Ar ôl y trip aethon ni i ymweld â marchnad Namdaemun, y fwyaf yn y wlad, lle gellid prynu unrhyw beth, am wn i. Stondin ar ôl stondin a dim lle i droi a phobl fel morgrug ymhobman.

Rhaid oedd codi yn blygeiniol y bore canlynol i gyrraedd y maes awyr erbyn chwech. Roedd y lle yn berwi hefo pobl. Heb i ni sylweddoli roedd hi'n gyfnod Blwyddyn Newydd y Tseiniaid ac felly roedd pawb yn mynd adref at eu teuluoedd i ddathlu. Mi daerwn fod y cyfan o boblogaeth Seoul yn y maes awyr y bore hwnnw.

Dw i'n falch i mi gael y profiad o grwydro'r ddinas ond yn hapus i wynebu cyfnod olaf y daith a hedfan i Hanoi, enw cyfarwydd iawn yn enwedig i'r rhai ohonom sy'n cofio'r 60au a'r 70au a'r rhyfel erchyll rhyfel Vietnam i ni, ond rhyfel America i drigolion y wlad. Roedd deuddeg diwrnod o'n blaenau ac roeddem yn awyddus i ymweld â llefydd ag enwau oedd mor gyfarwydd ac yn rhan o'n hanes ni.

Tan y rhifyn nesaf felly.

Anwen Hill



Cymdeithas Wyddonol Cymry Caerdydd Mai

Bydd ein rhaglen am 2018/19 yn dod i ben ar Nos Lun Mai 20fed am 7.30 yr hwyr yn ystafell G07 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd pan fyddwn yn croesawu Derith Rhisiart i'n hannerch. Byddwn hefyd yn cynnal ein cyfarfod cyffredinol blyneddol. Croeso i bawb.

Braf oedd agor tudalennau rhifyn Gwanwyn y cylchgrawn Advances Wales a ddaeth i'n tŷ ni yn ddiweddar. Rwy'n cael blas ar y cyhoeddiad lliwgar, dwyieithog hwn o Lywodraeth Cymru; daw, yn rhad ac am ddim, ar ffurf copi caled neu ar lein. Cysylltwch gyda Jennifer Clark ar innovation@gov.wales neu dros y ffôn ar 03000616040. Ceir crynodebau hwyliog am lu o weithgareddau ymchwil a datblygiad ar nifer o destunau gwyddonol mewn sefydliadau ar draws Cymru. Y tro hwn glaniodd fy llygaid ar y canlynol: Mae cwmni biotechnoleg Bionema o Abertawe wedi creu magl pryfed i frwydro yn erbyn chwilod yr haf, sy'n gyfrifol am ddifrod sylweddol i laswellt a thyweirch ar gwrs golff.

Mae gwyddonwyr yn adran Ffiseg, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Queensland, yn arloesi dull newydd, mwy sensitif, i fesur tonnau uwchsaïn. Mae gan uwchsaïn ystod eang o gymwysiadau, megis yn y maes meddygol ar gyfer archwilio merched beichiog ac ar gyfer delweddu biofeddygol cydraniad i ganfod tiwmorau. Fe'i defnyddir hefyd at ddelweddu gwrthrychau tanddwr a cherbydau awyr di-griw.

Mae'r cwmni Oseng-Rees Reflection yn Abertawe wedi datblygu ffordd arloesol o ailgylchu poteli gwydr i wneud paneli addurnol, cynaliadwy ar gyfer cymwysiadau pensaernïol. Fel rheol mae'r poteli hyn yn cael eu pentyrru mewn sgip a'u trawsnewid yn gynnyrch isel ei werth megis agregau. Mae'r datblygiad newydd yn anelu at ddefnydd mwy amrywiol, gan ddefnyddio llai o egni.

Mae partneriaeth rhwng Prifysgol Caerdydd a'r cwmni Sequestim yn datblygu sganiwr teithwyr mewn maes awyr, gyda'r bwriad o gyflymu trosglwyddiad teithwyr tra'n cynnal diogelwch. Amcangyfrifir bod 12 miliwn o bobl yn teithio mewn awyren bob dydd ar draws y byd. Disgwylir y bydd y nifer yn dyblu mewn 20 mlynedd. Felly mae amcan y bartneriaeth yn greiddiol.

Ewch ati i gael eich copi o Advances Wales.

A nawr am rywbeth gwahanol.

Dewiswch unrhyw rif. Adiwech ato'r rhif nesaf i fyny. Adiwech 9. Rhannwch gyda 2. Tynnwch i ffwrdd y rhif cychwynnol. Sawl bys sy ar eich troed chwith? Mmm!

Dr Neville Evans

Cynhadledd Plas Mawr

Yn ddiweddar, aeth tair ohonom ni o Ysgol Penalltau da Mrs Owen i Ysgol Plas Mawr i gymryd rhan mewn cynhadledd ysgolion yng Nghaerdydd. Roedden nhw'n trafod y cwricwlwm newydd ac aethom ni i siarad am ein themâu a gwaith yr ysgol.

Dangosom ni sut rydym ni wedi bod yn defnyddio'r olwyn ddysgu i ddatblygu ein sgiliau er mwyn creu cyflwyniad neu fenter. Er enghraifft, tymor diwethaf, creon ni sioe'r Dewin Os a ni oedd yn gyfrifol am bopeth! Ar ôl penderfynu ar y sioe, roedd rhaid i ni greu sgript, caneuon, cynnal clyweliadau, cynllunio a chreu gwisgoedd a phropiau. Roedd hyd yn oed cystadlaethau i ddewis cynllun tocynnau a phosteri. Roedd rhaid cydweithio a bod yn greadigol er mwyn creu sioe arbennig. Roedd y rhieni a'r gynulleidfa yn falch iawn ohonom ni ac roeddem ni wedi mwynhau'r broses yn fawr. Byddwn yn siŵr o gofio'r profiad!

Ar ddechrau gweithdy Plas Mawr, roeddem ni'n teimlo'n nerfus yn siarad o flaen athrawon ysgolion eraill ond ar ôl tipyn, roedd mwy o hyder gyda ni ac aeth pethau'n llwyddiannus, er gwaethaf larwm tân yn canu yng nghanol y cyflwyniad! Diolch i Mrs Pitman am ein gwahodd ni i siarad o flaen yr athrawon ac am y bwyd blasus!

gan Scarlett Humphreys, Rylie Jenkins a Madison Rogers, Blwyddyn 6.

Cerddi gan Dafydd Islwyn

Olion

(*wrth gofio'r Cilie*)

Mae'r bae yn benisel
islaw Y Foel
a'r hirlwm yn drwm
ar y drain
ger Parc Mawr
am nad oes bardd
ym mharlwr bach y Cilie.

Yma
ar aelwyd y cywydd
a chrud yr englyn
bu Mosi Worrell o amser
yn chwalu, malu a thaflu
offer y Bois.

Mae ôl ei ymweliad
ar gilbost iet y clôs
a'r chwyn fel sillafau
a gollwyd o lwythi
cynhaef y Cilie.

Rhymni

Idris
yma ar ddaear dy droedle
y gwelaist y glöwr
yn trin y pridd
yn dyner.

Fe'i gwelaist
yn llonyddwch ei randir
a'i ddwylo yn plannu
ei datws cynnar.

Fe welaist
y pridd ac yntau
yn cydweithio
fel dau gymar
yn cadw llygaid
ar gwpwrdd bwyd ei deulu.

Ennill Tir

Dyddiau a fu
gwelwyd y dalaith
fel llys Y Pethe
wedi mynd â'i ben iddo.

Derbyniwyd yn fodlon
mai'r Gymraeg oedd iaith
yr hen bobl
a fynnai mai Pantycelyn
a'i cadwodd ar ei llwybr cul.

Machludodd y dyddiau
'mieri lle bu mawredd'
a chydag amser yn cerdded
tua'r wawr
ni reibiwyd gwreiddiau iaith
yn y tir du.

Cangen Cwm Rhymni, Merched y Wawr

Ymweld â Phenarth



I ni, pobl y cymoedd glofaol, mae apêl arbennig gan y trefi glan môr fu unwaith yn borthladdoedd allforio cynnyrch ein pyllau. Mae'r rheilffyrdd fu'n cario'r wagenni glo bellach yn cludo ymwelwyr i

fwynhau hamddena ar lan y môr, boed rhialtwch Ffair y Barri neu bleserau mwy syber Penarth.

Felly i Benarth yr aeth ein cangen ddiwylliedig ni ar ddiwrnod braf o Wanwyn - ond nid i hamddena ar y prom na rhodio'r parc. Diwylliant oedd ein nod, a chelf a chrefft y cyd-destun. Mae Gwyneth Davies, un o'n haelodau, yn ymddiddori mewn celfyddyd, yn enwedig mewn gemwaith a thecstiliau, ac wedi tynnu ein sylw at arddangosfa yn y Pafiliwn ym Mhenarth o waith Haf Weighton.

Mae Haf, sy'n enedigol o Lysfaen, ac wedi cael ei haddysg yn ysgolion Cymraeg Caerdydd, wedi ennill llawer o sylw ac o glod am ei gwaith gwreiddiol a dychmygus sy'n defnyddio ystod o ddefnyddiau. Brodwaith yw sylfaen ei gwaith, ond mae'n gweithio mewn "paent, print a phwythau", meddai. Bu'n byw yn Awstralia, Canada a Seland Newydd ac mae dylanwad celf y gwledydd hynny i'w ganfod yn ei gwaith.

Tan yn ddiweddar bu Haf yn byw ac yn gweithio yn Llundain ac yn arddangos yn oriel enwog Saatchi. Ond unwaith iddi ddechrau magu teulu, cydiodd hiraeth ynddi, a daeth hi a'r teulu adre'n ôl i Gymru, gan wneud eu cartref ym Mhenarth. Nid yw'n rhyfedd felly taw 'Adre' yw teitl a thema ei harddangosfa.

Mae rhai adeiladau a golygfeydd cyfarwydd i bob un ohonom wedi ysbrydoli Haf i'w dehongli trwy ei brodwaith cain. Dyma siop David Morgan, y crwtyn o Rymni a wnaeth ei ffortiwn yng Nghaerdydd; dyma arcêds enwog canol y ddinas, yr Amgueddfa Genedlaethol a Neuadd y Ddinas.

Yn yr arddangosfa hardd hon fe welwch hefyd adeiladau Penarth, y pier a'i bafiliwn. Fe welwch ysbtytai Llandochoau a Rookwood yma yn ogystal, oherwydd mae Haf wedi ei chomisiynu gan y Bwrdd Iechyd i greu lluniau fydd yn falm i lygaid ac eneidiau cleifion a staff gyda'i gilydd.

Wedi i ni fwynhau cinio blasus – a hynny yn yr arddangosfa ei hun, trwy garedigrwydd caffi Waterloo y Pafiliwn – cawsom y fraint o gael ein tywys trwy'r arddangosfa gan Haf, a chlywed am y gwahanol agweddau ar ei gwaith, ei hysbrydoliaeth a'i phrofiadau amrywiol wrth iddi gyflwyno ei gwaith i wahanol gynulleidfaoedd – o blant meithrin at arolygwyr Estyn!

Mawr yw ein diolch ni fel cangen i Gaynor Williams am drefnu'r cyfan, i Gwyneth am y syniad ac am arwain y diwrnod. Ond mae'n diolchiadau yn bennaf i Haf am ei hamynedd a'i ffordd annwyl ac agos atoch o gyflwyno ei gwaith. Llongyfarchiadau mawr iddi ar yr arddangosfa arbennig hon. Mae ei gwaith wedi ei arddangos yn y Galeri, Caerffili – ond mae cyfle gyda chi nawr i gyfuno taith bleser i Benarth gydag ymweliad â'r arddangosfa hon, sydd ar agor tan Mai 28ain. Bydd ganddi arddangosfa hefyd yn Crefft yn y Bae yn ystod wythnos Eisteddfod yr Urdd ddiwedd mis Mai.

Os hoffech fwy o wybodaeth am Haf a'i gwaith, ewch i'w gwefan - <https://hafanhaf.com>

Dr Elin Jones




Pier Penarth gan Haf Weighton

Adolygu “Dau”

Stiwt, Y Coed Duon, 15^{fed} o Ebrill

Peth rhyfedd yw dawn yr actor. Beth sy'n ei alluogi i'ch argyhoeddi ei fod yn berson real, cig a gwaed, sydd wedi dewis siarad gyda chi o lwyfan a phortreadu darn o fywyd, o berthynas rhwng unigolion, o deimladau a phrofiadau nas profoch chi yn eich byw? Sut mae'n eich denu i gredu ynddo, i fyw trwy ystod o sefyllfaoedd gydag ef – a chithau'n eistedd yn gyfforddus yn eich sedd yng nghwmni criw o bobl eraill?



Cynulleidfa gefnogol ac ymlaciol oedd gan actorion “Dau” wrth iddynt gamu i lwyfan Y Stiwt yn y Coed Duon ar Ebrill 15^{fed}, cynulleidfa na fyddai'n rhy feirniadol, ond un nad oedd yn disgwyl rhyw lawer chwaith. Gyda bod y ddrama yn Gymraeg, byddwn i gyd yn fodlon ein byd, ac yn meddwl i ni gael gwerth ein harian. Mae naws cartrefol iawn i'r Stiwt, ac mae cael cymryd diodydd mewn i'r awditorium yn ychwanegu at yr awyrgylch hamddenol. Roeddem ni i gyd yno i gael ein plesio.

Cynulleidfa wahanol aeth allan o'r Stiwt y noson honno: un oedd dan deimlad, wedi bod yn rhan o brofiad theatrig pwerus dros ben. Llwyddodd dau actor - Elin Phillips a Carwyn Jones - i gyfleu cymeriadau gŵr a gwraig sy'n rhedeg tafarn, tra'n delio gyda digwyddiad yn eu gorffennol sydd wedi ysigo eu perthynas. Dyma'r ddau'n siarad gyda'i gilydd a chyda'r cwsmeriaid anweledig sy'n archebu diodydd wrth y bar, gan gyflwyno nid yn unig y sgwrs ysgafn gyda'r cwsmeriaid ond, a hynny yn yr un anadl weithiau, y sgwrs finiog rhyngddyn nhw sy'n datgelu priodas ar fin chwalu.

Byddai hynny yn ei hun yn haeddu clod, ond daeth Elin a Carwyn â rhai o'r cwsmeriaid yn fyw o'n blaen hefyd. Bydd y landlord yn diflannu i'r seler - ac yn dychwelyd i'r llwyfan fel hen bensiynwr sy'n hoffi magu peint, a'i hiraeth, yn dawel yn y cornel. Bydd y landlady yn rhuthro allan, wedi colli'i thymer gyda'i gŵr, ac yna'n llithro mewn yn betrus fel Lesley, sy'n byw yn ofn ei phartner cas ond cwbl gredadwy, a chwareir gan Carwyn.

Portreadodd y ddau ystod o gymeriadau - y wraig chwerw sy'n gofalu'n anffodlon am ei gŵr sy'n gaeth i'r tŷ; y pâr sy'n byw i addoli Elvis; y crwt bach sydd yn chwilio am ei dad - ac fe gredon ni ymhob un ohonynt yn eu tro, gan chwerthin dros rai cymeriadau a sefyllfaoedd doniol, ac yna'n tristáu wrth sylweddoli dwyster rhai o'r trasiediau personol a ddatgelwyd inni gan yr actorion celfydd hyn. Yna, ar ddiwedd y perfformiad, cawsom ein gwefreiddio wrth sylweddoli beth yn union oedd y digwyddiad a chwerwodd berthynas y landlord a'r landlady.

Mae Elin Phillips a Carwyn Jones yn haeddu pob clod felly, ond mae angen canmol y cyfarwyddwr celfydd, Gareth John Bale - heb sôn am aelodau'r tîm cynhyrchu - a lwyddodd i greu profiad theatrig arbennig iawn. Ac wrth ganmol, dylwn fod hefyd yn cynnwys Theatrau Rhondda Cynon Taf, cyd-gynhyrchwyr y ddrama hon, a'r noddwyr eraill, megis Theatr y Parc a'r Dâr: rwy'n siŵr bod ein Cwmni yn diolch o galon i'r cwm hwnnw am gefnogi'r fenter hon!


Dr Elin Jones



Elin Phillips Landlady



Carwyn Jones Landlord



Gareth John Bale Cyfarwyddwr

Colofn Dafydd Islwyn

Dewadd mae'r daith o ganol Bargod i Ffordd Bryn Coed Duon yn un hynod o ddiddorol. I godi'r galon arni gellir cysylltu pob twll a chornel ohoni ag emyn, englyn, person adnabyddus o fyd Y Pethe ac enwau Cymraeg ar gartrefi. Wrth ddisgwyl am y bws ar sgwâr y Royal ail welaf orymdaith Gorsedd y Beirdd ar ddechrau Haf 1989 ar ei ffordd i gyhoeddi y Genedlaethol 1990 ym Mharc Bargod. Cofio nad oedd yr Arwyddfardd, Dilwyn Miles o Hwlfordd, yn hapus fod yr Orsedd wedi mynd yn groes i'w benderfyniad a chynnal y seremoni yn yr awyr agored. Y prifardd Emrys Deudraeth oedd yr Archdderwydd. Bardd na orffwysodd ar ei rwyfau. Dechreuodd ei yrfa fel athro mewn Ysgol Gynradd yn Llangoed, Ynys Môn, a'i gorffen yn brifathro Ysgol Gynradd Llanerfyl yn yr hen Sir Drefaldwyn. Cofia iddo weithio ei bennill gyntaf yn wyth oed,

Iâr fach gloff yw fy iâr fach i
Sydd yn dodwy 'nghefn y tŷ;
Pentre Draw yw ei chartre hi,
Yno magwyd hi a'i phlu.

Yn 1985 cyhoeddodd gyfrol deyrnged i'w dad - Monallt. Portread o Fardd Gwlad, cyfrol gynnes iawn. Roedd nain Emrys Deudraeth ar ochr ei fam yn gyfnither i fam Hedd Wyn. Gan fod cysylltiad rhwng Linda Griffiths, Plethyn, â'r cwm, addas yw cofio englyn prifardd 1967 a 1971 i'r grŵp,



Pa wllth mor loyw â'r 'Plethyn' – dawn Linda'n
Lendid fel y bechgyn;
Nodau aur cân aderyn,
Tyner lais fel ton ar lyn.

Arhosodd y bws am ychydig funudau yn yr orsaf bysus. Y llun ddaeth i'r cof oedd yr un o'r 'Bargod' yn y gyfrol 'Crwydro Blaenau Morgannwg' a gyhoeddwyd yn 1962.

Llun o'r Bargod
diwydiannol a holi fy hun a
fu'r fath le! Onid yn y
gyfrol honno y darllenais
gyntaf gerdd Iorwerth
Peate. "Wrth weled tref
Bargoed", Gorffennaf
1927. Heddiw, â chyni
gwahanol wedi taro'r dre,
mae cwestiwn clo'r gerdd
mor addas,



Ond a droes Dyn pob oes erioed
Bob ergyd tua'r Bargoed?

Gadael yr orsaf bysiau a'i throi hi'n ôl i'r dre.
Yr arwydd 'Croeso i Fargod' wrth ddringo'r lôn
newydd yn tynnu llygaid. 'Bargod - y darn
hwnnw o'r to sy'n cyrraedd dros ymyl wal y tŷ.'
Dyna welodd Ellis Jones, Llanllyfni, Gwynedd,
wrth weithio ei englyn buddugol yn y
Genedlaethol, Pwllheli 1955,

Rhy'n ddi-daw tra bo'n glawio - seiniau mwyn
Fel sŵn mil yn godro;
Pan geir rhew yn dew ar do
Daw hynod dethau dano.

Un o'm hoff englynion a enillodd yn y
Genedlaethol y ganrif ddiwethaf. Un o'r
dosbarth gwaith bôn a braich diwylliedig oedd
Ellis Jones.

Teithio heibio i'r fynedfa i Morrisons. Yn fy
myw ni allaf anghofio siop fach y pentref a'r
ffordd o fyw gwledig ym Môn chwe deg mlynedd
yn ôl. Disgrifiwyd Siop y Pentref gan O. M.
Lloyd, Caernarfon ar ddiwedd ei oes,

Llethwyd y silff, llwythwyd sach, - emporiwm
Parod i bob masnach,
Enwog warws hen geriach,
Pantri bwyd y pentre' bach.

Merch yng nghyfraith O.
M. Lloyd ydy Nesta
Llwyd, Tregarth, a bu i
ewythr iddi, pan oedd yn
14 oed, ddod i Fargod
gyda'i fodryb. Bu'n
gweithio yn y pwll glo am
gyfnod cyn dychwelyd i
Fethesda.

Ef ydy 'Joni Sowth' yn
'Un Nos Ola' Leuad'
Caradog Prichard, 1961.



Cyfarchion mis Mai i chi i gyd!

Mae llawer o ddiarhebion lliwgar a diddorol yn Gymraeg. Maen nhw'n ffordd arall o gyfoethogi eich iaith. Mae rhai diarhebion yn hen iawn ac mewn iaith sy'n wahanol iawn i iaith bob dydd heddiw, ond peidiwch â gadael i hynny fod yn broblem i chi.

Dyma rai diarhebion cyfarwydd. Allwch chi gysylltu pob dihareb gyda'r sefyllfa gywir?

1. Athro da yw amser
2. A fo ben, bid bont
3. Deuparth gwaith ei ddechrau
4. Cenedl heb iaith, cenedl heb galon
5. Gormod o ddim nid yw dda



- a. Pan ddaeth ffrwythau kiwi i siop y pentref roeddwn i'n prynu rhai bob dydd, ond ar ôl rhyw fis roeddwn i wedi cael digon.
- b. Unwaith dechreuodd John ysgrifennu ei nofel gyntaf, roedd y gwaith yn dod yn hawddach bob dydd.
- c. Bydd Sian yn dda fel aelod o'r Cyngor Sir, mae hi bob amser yn helpu pobl.
- ch. Pan ddechreuodd Gwyn ei swydd newydd roedd y gwaith yn anodd iawn, ond erbyn hyn mae e'n ymdopi'n wych.
- d. Mae llawer o bobl yn meddwl ei bod yn bwysig dysgu siarad Cymraeg.

dihareb / diarhebion : proverb/s
sefyllfa gywir : correct situation
deuparth : 2/3
Cyngor Sir : County Council


cyfoethogi : enrich
a fo..... : he/she who would be
cenedl : nation
ymdopi : to cope

cyfarwydd : familiar
bid: let him/her be
dim: anything

Atebion Posau'r Plant

Mae 9 o'r gweithgareddau wedi'u cymysgu yn y peli

- | | |
|------------|------------|
| 1. CHWARAE | 2. RHEDEG |
| 3. NOFIO | 4. CERDDED |
| 5. DRINGO | 6. NEIDIO |
| 7. SGIPIO | 8. BEICIO |
| 9. PYSGOTA | |



Eisteddfod yr Urdd, Gwent 2019

1 Unawd Bl. 2 ac iau

1. Tomos Joseph Y Castell
2. Cody Dibble Cwmbran
3. Lennon Jones Ifor Hael
Millie Watters Ifor Bach

2 Unawd Bl. 3 a 4

1. Joshua Bryan-Jones Bro Teyrnnon
2. Ruby-Leigh Legge Cwmbran
3. Isabelle Moger Bro Allta
Aimee Elizabeth Harris " "

3 Unawd Bl. 5 a 6

1. Daniel Mogford Bro Teyrnnon
2. Siena Missen Y Castell
3. Meleri Godfrey Caerffili
Hanna Lovesey Casnewydd

4 Deuawd Bl. 6 ac iau

1. Ffion a Gwenllian Bro Allta
2. Jude a Dewi Cwmbrân
3. Amelia a Sienna Cwmbrân

5 Parti Bl. 6 ac iau (Adran)

1. Adran y Lawnt

6 Parti Unsain Bl. 6 ac iau (D)

1. Parti Seren Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf

7 Côr Bl. 6 ac iau (Adran)

1. Parti Panteg Ysgol Panteg
2. Adran y Lawnt Adran y Lawnt

9 Parti Unsain Bl. 6 ac iau (Ysg. dros 50)

1. Parti Bro Allta
2. Ysgol Gymraeg Caerffili
3. Parti'r Fenni
4. Ysgol Gymraeg Cwmbrân

11 Côr Bl. 6 ac iau (Y.C.) (Ysg. Dros 150)

1. Côr y Castell
2. Côr y Fenni
3. Côr Ysgol Gymraeg Caerffili

12 Parti Deulais Bl. 6 ac iau (Y.C./Adran)

1. Parti'r Castell

14 Unawd Merched Bl. 7-9

1. Grace Rogers Cwm Rhymni
2. Caitlin Sykes Gwent Is Coed
3. Laura Preston Gwynllyw

15 Unawd Bechgyn Bl. 7-9

1. Gwyndaf G Jones Cylch Llanofer
2. Harrison Reed Gwynllyw
3. Morgan Fish Gwynllyw

16 Deuawd Bl. 7-9

1. Cerys a Eleanor Gwent Is Coed
2. Maddison a Seren Cwm Rhymni
3. Shania a Grace Cwm Rhymni

18 Unawd Bechgyn Bl. 10 dan 19 oed

1. Kai Fish Gwynllyw
2. John Rhys Liddington Cwm Rhymni

26 Côr Merched S.A. Bl. 13 ac iau

Cwm Rhymni

27 Côr Bechgyn T.B. Bl. 13 ac iau

Cwm Rhymni

36 Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl. 6 ac iau

1. Lois James Y Castell
2. Mali Hughes Y Castell
3. Daniel Mogford Bro Teyrnnon

37 Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl. 7, 8 a 9

1. Gwyndaf G Jones Cylch Llanofer

41 Unawd Telyn Bl. 6 ac iau

1. Gwenan Lois Dickenson Y Fenni
2. Agnes Rees-Lever Y Castell

42 Unawd Llinynnol Bl. 6 ac iau

1. Sebastian Lyne Y Ffin
2. Kathryn Lyne Y Ffin

43 Unawd Gitâr Bl. 6 ac iau

1. Kyla Williams Ysgol GynraddBryn Onnen

44 Unawd Chwythbrennau Bl. 6 ac iau

1. Isabella Korshaven Ysgol Gynradd Henllys
2. Cadi Rees Bro Allta
3. Charlie Malpas Bro Allta

46 Unawd Piano Bl. 6 ac iau

1. Nia Parry Y Fenni
2. Bethan Paull Bro Allta
3. Seren Lian Bro Teyrnnon

47 Unawd Offer Taro Bl. 6 ac iau

1. Eleanor Sudworth Y Ffin

54 Unawd Llinynnol Bl. 7- 9

1. Louix David Passmore Ysgol Gyfun Rhisga
2. Gwyndaf G Jones Cylch Llanofer
3. Mali Elen Wood Gwynllyw

55 Unawd Gitâr Bl. 7 - 9

1. Maddison Malpas Cwm Rhymni

56. Unawd Chwythbrennau Bl 7 -9

57 Unawd Pres Bl. 7- 9 58 Unawd Piano Bl. 7- 9

1. Al Nasairi Adam (Enillydd y 3 cystadleuaeth)

59 Unawd Offer Taro Bl. 7 - 9

1. Mathew Jones Ysgol Gyfun Trefynwy
2. Cian Hughes Cwm Rhymni

61 Unawd Telyn Bl. 10 a dan 19 oed

1. Aisha Palmer Cwm Rhymni

62 Unawd Llinynnol Bl. 10 a dan 19 oed

1. Nick Francis Cwm Rhymni

63 Unawd Gitâr Bl. 10 a dan 19 oed

1. Aisha Palmer Cwm Rhymni

64 Unawd Chwythbrennau Bl. 10 a dan 19 oed

1. Megan Lowri Wood Gwynllyw

65 Unawd Pres Bl. 10 a dan 19 oed

1. Patrick Miller Ysgol Gyfun Caerllion
2. Caleb Mock Cwm Rhymni

66 Unawd Piano Bl. 10 a dan 19 oed

1. Aisha Palmer
 2. Nick Francis
 3. Reuben Palmer
- Y 3 o Gwm Rhymni

67 Unawd Offer Taro Bl. 10 a dan 19 oed

1. Tom Williams Ysgol Gyfun Caerllion

68 Deuawd Offerynnol Bl. 13 ac iau

1. Reuben a Aisha Cwm Rhymni

70 Unawd Offerynnol 19 - 25 oed

1. Heledd Fflur Gwynant Cylch Cwm Rhymni
2. Jack Mainwaring ACT Caerffili

75 Unawd Cerdd Dant Bl. 2 ac iau

1. Alfie Dent
 2. Ruby Griffiths
 3. Tomos Joseph
- Y 3 o Ysgol y Castell

77 Unawd Cerdd Dant Bl. 5 a 6

1. Siena Missen
 2. Lili Evans
 3. Lois James
- Y tair o Ysgol y Castell

79 Parti Cerdd Dant Bl. 6 ac iau (Y.C.)

1. Parti'r Castell

99 Dawns Werin Bl. 4 ac iau

1. Parti'r Castell Y Castell
2. Parti En-Xuan Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf

101 Dawns Werin Bl. 6 ac iau (Ysg.>100/Adr)

1. Parti Trelynm
2. Parti'r Castell
3. Parti Seren Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf

112 Dawns Greadigol Bl. 6 ac iau (Y.C./Adran)

1. Ysgol Gymraeg Caerffili
2. Parti Bro Sannan
3. Parti Panteg

113 Dawns Aml-Gyfrwng Bl. 6 ac iau

Parti'r Castell

117 Dawns Hip-Hop/Stryd/Disgo Bl. 6 ac iau

1. Demi Davies Gilfach Fargoed
2. Lili Evans Caerffili
3. Alisha Davies Caerffili

116 Dawns Aml-Gyfrwng Bl. 7 a dan 19 oed

Cwm Rhymni

118 Grwp Dawnsio Hip-Hop/Stryd/Disgo Bl. 6 ac iau

Parti Gilfach Fargoed

Parti Ysgol Gymraeg Cwmbrân

Parti Y Lawnt

119 Dawns Hip-Hop/Stryd/Disgo Bl. 7, 8 a 9

Awen Davies

Cwm Rhymni

121 Dawns Hip-Hop/Stryd/Disgo Bl. 10 a dan 19 oed

Kai Fish

Gwynllyw

123 Llefaru Unigol Bl. 2 ac iau

Osian Jones Y Castell

Beca Hedd Jones Y Ffin

Miri Andrews Bro Teyrnnon

Amelia Angel Bro Allta

124 Llefaru Unigol Bl. 3 a 4

Ruby Samuel Panteg

Ffion Brown Panteg

Ffion Lewis Gilfach Fargoed

Oscar Blanchard Y Castell

125 Llefaru Unigol Bl. 5 a 6

Tia Huish Caerffili

Megan Godfrey Caerffili

Joseff Jones Y Fenni

Carys Gunter Bryn Onnen

126 Grŵp Llefaru Bl. 6 ac iau

1. Parti'r Castell
2. Parti'r Fenni

3. Parti Gilfach Fargoed
4. Parti Cwmbrân

128 Llefaru Unigol Bl. 7 - 9

Tomos Baker Gwent Is Coed

Efa Maher Gwent Is Coed

Gwyndaf G Jones Cylch Llanofer

135 Llefaru Unigol Bl. 2 ac iau (D)

Bradfield Maisie St Gwladys

Williams Robbie-Lee St Gwladys

136 Llefaru Unigol Bl. 3 a 4 (D)

Rhys Davies Cwm Ifor

Elle-May Bailey Cwm Ifor

137 Llefaru Unigol Bl. 5 a 6 (D)

Tayla Wardman St James

Grace Harding St Gwladys

138 Grwp Llefaru Bl. 6 ac iau (D)

Parti Coed-y-Brain Llanbradach

Parti En-Xuan Rhymni Uchaf

Parti Sant Iago St :James

139 Llefaru Unigol Bl. 7 - 9 (D)

1. Katie Howells
 2. Ffion Brooks
 3. Felicity Clayton
- Y 3 o Ysgol Gyfun Caerllion

Eisteddfod yr Urdd (parhau)

145 Ymgom Bl. 6 ac iau

Parti Trelyn	Pengam
Parti Y Lawnt	Rhymni
Grŵp Emilia	Ysgol Gymraeg Casnewydd
Grŵp Ffion	Ysgol Gymraeg Casnewydd

146 Cyflwyniad Dramatig Bl. 6 ac iau

Parti'r Fenni	Y Fenni
Parti Scarlett	Penalltau

147 Cân Actol Bl. 6 ac iau (Ysg. hyd 100)

Adran Bro Helyg
Adran y Lawnt

148 Cân Actol (Y.C.) Bl. 6 ac iau (Ysg. dros 100)

Parti Bro Teyrnnon
Can Actol Ysgol Gymraeg Caerffili

149 Ymgom Bl. 7, 8 a 9

Ysgol Gyfun Gwent Is Coed

160 Deuawd/Ensemble Sioe Gerdd Bl.10 a dan 25 oed

Cwm Rhymni

161 Ymgom Bl. 6 ac iau (D)

Parti Ruo-Qi	Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf
--------------	----------------------------

162 Cân Actol Bl. 6 ac iau (D)

Parti En-Xuan	Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf
---------------	----------------------------

Clwb Darllen Dysgwyr Caerffili

Cyfarfod nesa:
Dydd Gwener
10 Mai

"Arwyr Cymru" gan Jon Gower
2 o'r gloch yn Llyfrgell Caerffili

Cofiwch hefyd am:

Y bore coffi ym Medwas, Caffi'r Graig bob dydd Llun o 10.30 ymlaen

A'r bore coffi yn y Malcolm Uphill (Wetherspoons), Caerffili bob dydd Mawrth o 10 o'r gloch ymlaen

Cyswllt: penneyje961@gmail.com

Croeso i Bawb



www.iwcs.cymru

Sesiynau pob

Nos Fawrth

**Clwb Rygbi
Penallta**

6.00 – 8.00

**Clwb Cerdd Cwm
Rhymni**

**Canolfan Siloh,
Ystrad Mynach**

**11^{eg} o Fai
2:30**

**Mavron String
Quartet**

£8 (£7.50 i bensiynwyr)

Lluniaeth Ysgafn

Hanes Cwm Ni

2/5/19 Richard Gammon

Streic Cyfuniad y Cambrian a
Therfysgoedd Tonypandy 1910-11

6/6/19 Gareth Thomas

Iolo Morganwg: Arwr cenedlaethol
neu ddihiryn heb ei ail?

4/7/19 Dr Dave Hale

Ymweld ag amgueddfa Rhisga ac
olion o gwmpas y dref

(6:30pm yn Amgueddfa Rhisga NP11 6GN ac
wedyn taith fer o gwmpas y dref)



Clwb Rygbi Penallta

Ystrad Mynach CF82 7EP


7:00yh

Am ragor o fanylion:

helen.young@coleggwent.ac.uk

01495 333702

Eisiau dysgu mwy am
hanes Cymru? Dewch i
wrando. Croeso i bawb.
Addas ar gyfer siaradwyr
CANOLRADD / UWCH /
HYFEDREDD / RHUGL



Bob Nos Fawrth

7:00yh

Côr Cwm Ni

Capel Bryn Seion, Ystrad Mynach

Croeso i Aelodau Newydd

Croeso i Aelodau Newydd

Pam Adnoddau Staffio?

Sefydlwyd Adnoddau Staffio yn benodol i weithio o fewn y sector drwyddedig a diwydiannol gan ddarparu staff ar gyfer cwmnïau Bwyd, Diod a Diwydiannol.

Mae gennym staff profiadol ac ymroddedig. Mae hyn yn ein galluogi i ganolbwyntio yn benodol ar eich sector chi. Gyda gwybodaeth eang o reoliadau'r sector, mae ein polisi and gweithdrefniadau wedi'u llunio i'ch cefnogi, fel client.

Deallwn fod gennym gyfrifoldeb corfforaethol a chymdeithasol i warchod ein gweithwyr ac mae gennym bolisiau penodol yn eu lle i osgoi masnachu mewn pobol a chaethwasiaeth fodern - problem o fewn y diwydiant.

Cyfarwyddwr Reolwr: **Steven John Skivens**

steves@resourcestaffing.co.uk

Adnoddau Staffio Cyf. www.resourcestaffing.co.uk

Merched y WawrCwm Rhymni



Prynhawn Mercher, 15^{fed} o Fai

2:00

**Ymweliad â Chrochendy
Nantgarw**

Taith Tywys yn y Gymraeg gan
Gwen Griffiths

£5 gan gynnwys disgled a theisen

Croeso Cynnes i chi ymuno â ni
Addas iawn i ddysgwyr

Cyswllt: *Gaynor Williams* (01443 814079

PFSS

"Yn gweithio i leihau neu ddileu risg"

ASESIAD RISG -

YDYCH CHI WEDI GWNEUD UN?

Am bris heb rwymedigaeth Asesydd Tân cymwys
Cysylltwch â ni:

029 20 888798 07812 636655

PFSS@hotmail.co.uk



- * Cynllunio a Rheoli Cymunedau Busnes
- * Cyngor arbenigol a chymwys
- * Offer tân ac achub
- * Hyfforddiant ymarferol a damcaniaethol
- * Cyngor ac Ymgynghoriad
- * Cynlluniau, gweithdrefnau a pholisïau
- * Asesiad ac archwiliad risg
- * Addasu adeiladau
- * Ardaloedd arbenigol
- * Systemau nyrsiai ar alwad
- * Larwm tân a goleuadau brys
- * Gosod a gwasanaethu offer
- * Profion trydanol



**Cwrw da Cymraeg a
Gwasanaeth Cymraeg**

Uned B27 Ystâd Ddiwydiannol TrefforestCF375YB



Ar agor pob dydd Gwener 09:00 – 17:00.
#Lolffest 6 ar Ebrill 6ed a'r 7fed (12:00 – 01:00)

www.twtlol.com



Neuadd y Pentre, Treforgan
Nos Wener, 17eg o Fai

*Rhagbrawf Chwarae Drama Fer
Y Genedlaethol yn Llanrwst*



£4

Y GWCW

7:30

Cyfieithiad Ben Jones o “Flatmates” Barry Lambert

Cyfieithwyd y sgript drwy ganiatad y dramodydd a Lazy Bees Scripts

*Wedi mynd drwy'r goleuadau traffig sydd rhwng tafarn Tŷ Nant a Chanolfan Arddio Pugh llai na
chanllath i fyny'r rhiw trowch i'r dde i mewn i Heol Syr Lewis. Trowch wedyn i'r chwith ar ben yr heol
honno i mewn i Neuadd y Pentre.*